

Crynodeb Gwirio Ansawdd Gofal Deintyddol Bupa, Y Fflint Dyddiad y gweithgarwch: 23 Medi 2021

Dyddiad cyhoeddi: 28 Hydref 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ofal Deintyddol Bupa, Y Fflint, fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o driniaethau'r GIG a thriniaethau preifat ac mae ganddo bedwar deintydd ac un therapydd deintyddol¹. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig² a'r cydlynnydd triniaethau³ ar 23 Medi 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gfael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi addasu yn sgil COVID-19? Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?

¹ Unigolyn sy'n gymwys i drin oedolion a phlant gan ddarparu triniaethau periodontol a gwaith adferol a rhai mân lawdriniaethau geneuol i blant a atgyfeiriwyd gan ddeintydd yw "Therapydd Deintyddol".

² Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

³ Y cydlynnydd triniaethau deintyddol sy'n gyfrifol am hwyluso cynlluniau triniaeth cleifion y mae angen cwrs o driniaeth arnynt

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiadau risg/archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- Polisiâu/gweithdrefnau diogelwch tân, gan gynnwys asesiad risg diogelwch tân (lle y bo'n gymwys).

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig fanylion y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis er mwyn ei alluogi i weld cleifion yn ystod pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cyflwyno terfyn llym ar nifer y cleifion a ganiatawyd yn y practis ar yr un pryd ac y gofynnwyd i gleifion ddod i'r practis ar eu pen eu hunain lle y bo'n bosibl ac i wisgo gorchudd wyneb. Dywedwyd wrthym fod gorsaf diheintio â hylif diheintio dwylo wedi cael ei gosod yn y practis i'r cleifion ei defnyddio. Roedd hysbysiadau ar ddrws y practis i hysbysu'r cleifion am y gofynion cynyddol o ganlyniad i COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod sgriniau plastig clir wedi cael eu gosod wrth ddesg y dderbynfa er mwyn diogelu'r staff. Gosodwyd sticeri mewn mannau amlwg i atgoffa'r cleifion i gadw pellter cymdeithasol ac i ddangos y system unffordd yn y practis. Nid oedd teganau na chylchgronau yn yr ardal aros mwyach ac roedd llai o gadeiriau ar gael, wedi'u gwasgaru er mwyn cadw pellter cymdeithasol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cadeiriau yn yr ardal aros yn cael eu glanhau bob tro ar ôl iddynt gael eu defnyddio a bod cleifion yn cael eu tywys drwy'r practis.

Gwnaethom ofyn pa fesurau oedd ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion am weithdrefnau diogelwch COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ffonio cleifion cyn eu hapwyntiad er mwyn esbonio gweithdrefnau diogelwch COVID-19 a'u sgrinio am symptomau COVID-19. At hynny, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y practis yn anfon ffurflen hanes meddygol drwy e-bost at gleifion i'w chwblhau cyn eu hapwyntiad. Hefyd, roedd gwybodaeth am fesurau diogelwch cynyddol y practis ar gael ar wefan y practis. I gleifion heb fynediad at y rhynggrwyd, roedd copi o'r wybodaeth hon ar gael ar ffurf taflen i'w hanfon drwy'r post.

Gwnaethom ofyn am y cyfleusterau i sicrhau bod y practis yn hygyrch i bobl ag anableddau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y practis wedi'i leoli ar y llawr gwaelod a'i fod yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Yn ogystal, roedd un o ddesgiau'r dderbynfa ar lefel is (gyda sgrin) er mwyn bod yn addas i gleifion na allent ddefnyddio desg arall y dderbynfa. Roedd gan y practis hefyd doiled i bobl anabl a dolen glywed⁴ i bobl â nam ar eu clyw. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y staff hefyd wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a bod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, a adolygwyd yn flynyddol.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi glanhau'r practis ac amserlenni glanhau deintyddfeydd a oedd yn ystyried yr angen i gynyddu'r mesurau ar gyfer COVID-19. Gwelsom hefyd fod asesiad risg y practis, asesiad risg diogelwch tân a chynllun gweithredu rhag tân oll yn gyfredol, a oedd yn dangos bod amgylchedd y practis yn ddiogel. Roedd y dogfennau hyn yn rhestru'r risgiau, y mesurau rheoli a'r rhagofalon amrywiol a oedd ar waith i liniaru'r risgiau dan sylw.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Copi o'r archwiliad dihalogi WHTM01-05 diweddaraf a'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Amserlenni glanhau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod prosesau ar waith er mwyn amddiffyn y cleifion a'r staff pan fydd gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol (AGP)⁵ yn digwydd. Roedd y broses hon yn dilyn y Weithdrefn Weithredu Safonol ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Roedd y staff yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am y Weithdrefn Weithredu Safonol a'r canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol drwy e-bost mewnol a thrwy fewnwyd y cwmni.

⁴ Mae **dolen glywed** (a elwir weithiau yn ddolen sain) yn fath arbennig o system sain i'w defnyddio gan bobl â chymhorthion clyw.

⁵ Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP), a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef o haint a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

Yn ogystal, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod unedau hidlo aer ac unedau puro aer wedi'u gosod yn y deintyddfeydd, a oedd yn galluogi'r practis i weithredu'n unol â'r isafswm cyfnod segur⁶ o 10 munud yn dilyn gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol (AGP). Gwelsom dystiolaeth o bolisi COVID-19 cyfredol a oedd yn gyson â'r canllawiau cyfredol ac yn rhan o ddogfen bolisi rheoli heintiau ehangach.

Gwnaethom gadarnhau â'r rheolwr cofrestredig y broses sydd ar waith er mwyn gwneud yn siŵr nad oes gan y cleifion sy'n mynychu'r practis symptomau COVID-19. Dywedwyd wrthym y byddai'r practis yn ffonio cleifion cyn eu hapwyntiad ac yn gofyn cyfres o gwestiynau sgrinio iddynt. Byddai'r cleifion wedyn yn cael eu hailsginio wrth gyrraedd y practis ac yn cael cynnig masg wyneb a hylif diheintio dwylo. Pe bai claf yn dod i'r practis ac yn arddangos symptomau COVID-19, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'r staff yn gofyn i'r claf aildrefnu ei apwyntiad a byddent yn rhoi cyngor pe bai'r claf mewn poen.

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf o ran defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE), gan gynnwys y dull cywir o wisgo a diosg y PPE⁷. Cyflawnwyd hyn drwy ddull dysgu cyfunol gan ddefnyddio'r hyfforddiant ar-lein sydd ar gael ar lwyfan hyfforddi penodedig Bupa, a thrwy sesiynau ymarferol mewnol. Roedd negeseuon atgoffa megis posteri i atgoffa'r staff sut i ddefnyddio PPE yn gywir hefyd wedi'u harddangos mewn mannau amlwg yn yr ardaloedd gwisgo a diosg. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y staff yn gwisgo'r PPE cywir, gan gynnwys masgiau FFP3⁸, gynau, ffedogau a feisorau wrth drin cleifion.

Cadarnhaodd y brif nyrs a'r rheolwr cofrestredig y byddai llen rwber (rubber dam)⁹ yn cael ei defnyddio lle y bo'n bosibl i leihau'r risg o ronynnau yn yr awyr (aerosolau)¹⁰ ynghyd â dyfais sugno cyfaint uchel¹¹ yn ystod gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol (AGP). At hynny, dywedwyd wrthym fod hysbysiadau ar ddrysau'r deintyddfeydd lle y cynhaliwyd gweithdrefnau cynhyrchu aerosol er mwyn atgoffa'r staff i beidio â mynd i mewn tan y byddai'r cyfnod segur ar ben.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym na fu unrhyw oedi cyn cael PPE. Roedd wedi cael cymorth gan y bwrdd iechyd lleol i sicrhau bod digon o PPE ar gael drwy gydol y pandemig. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y bwrdd iechyd lleol wedi tynnu'r cymorth hwn yn ôl a bod y practis bellach yn cael PPE yn uniongyrchol gan gwmni

⁶ Cyfnod segur yw'r amser tawel yn y ddeintyddfa ar ôl gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP) sy'n galluogi unrhyw ddefnydd i setlo cyn unrhyw waith glanhau a diheintio.

⁷ Gwisgo - rhoi cyfarpar diogelu personol (PPE) ymlaen; Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ffwrdd

⁸ Caiff yr angen i wisgo masg FFP3 (masg untro ar gyfer y trwyn a'r geg er mwyn anadlu'n ddiogel) ei nodi drwy asesiad risg clinigol. Defnyddir y masg i ddiogelu rhag pathogenau a ledaenir drwy anadlu. I ddefnyddio'r masgiau hyn, rhaid i'r aelodau perthnasol o staff gael prawf ffitio wyneb er mwyn sicrhau y gall y masg ffitio'r wyneb yn iawn a'i fod yn gweithio mor effeithiol ag sy'n ofynnol.

⁹ Dalen denau o latecs neu ddeunydd nad yw'n cynnwys latecs yw llen rwber neu len ddeintyddol. Caiff ei defnyddio i wahanu'r dannedd o weddill y geg yn ystod triniaeth ddeintyddol er mwyn helpu i atgyweirio dannedd yn llwyddiannus.

¹⁰ Gall aerosolau deintyddol gludo feirysau a throsglwyddo heintiau.

¹¹ Dyfais sugno sy'n tynnu llawer o aer dros gyfnod o amser yw **Dyfais Gwagio Cyfaint Uchel** (HVE).

cyflenwadau deintyddol.

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheoli heintiau priodol a gwblhawyd yn ddiweddar, rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer cyfarpar dihalogi a sterileiddio ac amserlenni glanhau ar gyfer y pythefnos diwethaf.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig am y prosesau ar gyfer sicrhau bod digon o PPE ar gael. Dywedwyd wrthym fod y cyfrifoldeb hwn wedi'i ddirprwyo i brif nyrs, y neilltuwyd amser iddi bob wythnos i archebu cyflenwadau o PPE. Fodd bynnag, ni chadwyd cofnod o'r lefelau gofynnol ar gyfer pob eitem o PPE. Pe bai'r aelod o'r staff yn absennol, gallai hyn olygu y gallai'r cyflenwadau ddisgyn islaw'r lefelau sy'n ofynnol i redeg y practis deintyddol yn ddiogel.

Rhaid i'r practis deintyddol gadw taflen archwilio a chofnodi er mwyn sicrhau nad yw'r cyflenwadau o PPE yn disgyn islaw lefelau digonol.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisiâu / gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Polisiâu uwchgyfeirio
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
- Aseidiadau risg a wnaed mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch y staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym na chaeodd y practis yn ystod y pandemig. Parhaodd y practis i roi cyngor a chymorth i gleifion yr oedd eu hangen arnynt, dros y ffôn. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cwtdogi ei oriau agor, gan sicrhau mai dim ond y staff yr oedd eu hangen i gyflawni hyn a oedd ar y safle. Dim ond cleifion brys nad oedd angen triniaeth AGP arnynt y parhaodd y practis i'w gweld, a chafodd y cleifion hyn eu sgrinio am COVID-19 cyn mynd i mewn i'r practis. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai pob claf arall yn cael cyngor neu ei gyfeirio at wasanaeth amgen.

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig ganmol y staff yn fawr, a dywedodd wrthym fod yr holl staff wedi addasu'n dda, er gwaetha'r heriau a gododd yn sgil y pandemig. Dywedwyd wrthym fod gan Bupa linell gymorth iechyd meddwl a chymorth penodedig y gallai'r staff ei ffonio pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y cafodd cyfarfodydd staff rheolaidd eu cynnal i roi diweddariadau a chanllawiau yn ôl yr angen, yn ogystal â chyfarfodydd dyddiol bob bore. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth ar gael ar fewnrwyd y staff a thrwy e-bost, ac y byddai canllawiau, deddfwriaeth a pholisïau newydd yn cael eu hargraffu a'u gosod ar hysbysfwrdd y staff. Roedd gan y staff hefyd grŵp ar ap negeseuon testun er mwyn cadw mewn cysylltiad.

Nododd y rheolwr cofrestredig fod y practis yn defnyddio staff locwm o asiantaeth ddeintyddol leol pan oeddent yn brin o staff. Dywedwyd wrthym fod y staff asiantaeth yn gwbl ymwybodol o'r Weithdrefn Safonol ddiweddaraf a bod y gwiriadau cyflogaeth priodol wedi cael eu cwblhau gan eu hasiantaeth gyflogi.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig a'r cydlynnydd triniaethau ddisgrifio'r prosesau a'r gweithdrefnau sy'n sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys ar gael ac yn gyfredol. Dywedwyd wrthym fod y brif nyrs yn gwirio'r cyffuriau brys yn wythnosol. Cwblhawyd gwiriadau tymheredd dyddiol o'r oergell lle cedwid y pigiadau glwcagon¹² brys, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu storio o fewn yr amrediad tymheredd gofynnol.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis brosesau archwilio cadarn ar waith a gwelsom enghreifftiau o archwiliadau yn cwmpasu radiograffeg a chadw cofnodion. Nododd y rheolwr cofrestredig fod y prosesau archwilio wedi parhau drwy gydol y pandemig, a bod y canlyniadau wedi'u trafod â'r staff ar sail un i un a'u rhannu yn ystod cyfarfodydd tîm. Cynhaliwyd yr archwiliadau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwelliannau yn cael eu cynnal.

Darparwyd cofnod cynhwysfawr wedi ei gwblhau o hyfforddiant gorfodol gan y practis a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf a'u bod yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyfforddiant gorfodol gan gynnwys triniaeth cynnal bywyd sylfaenol, atal a rheoli heintiau ac argyfyngau meddygol.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Rhoddodd y practis gopi o'i ddatganiad o ddiben¹³ inni, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfen a ddarparwyd yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol fel y nodir yn y rheoliadau, gan ei bod wedi cael ei hysgrifennu i gydymffurfio

¹² Mae "Glwcagon" yn gyffur brys a roddir drwy bigiad mewngyhyrol mewn achos o hypoglycaemia diabetig.

¹³ Y datganiad o ddiben yw'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 1 i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Dylai hefyd restru'r mathau o driniaeth, cyfleusterau a phob gwasanaeth arall a ddarperir yn y practis deintyddol preifat neu at ei ddibenion, gan gynnwys manylion yr ystod o anghenion y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu diwallu.

â'r ddeddfwriaeth anghywir. Er enghraifft, nid oedd y datganiad o ddiben a gyflwynwyd gan y practis yn cynnwys cymwysterau na phrofiad perthnasol y rheolwr cofrestredig na rolau a chyfrifoldebau'r unigolyn cyfrifol. At hynny, nid oedd datganiad ysgrifenedig o'r trefniadau ar gyfer parchu preifatrwydd ac urddas cleifion. Gan fod y datganiad o ddiben yn ddogfen gyhoeddus, ac nad yw'n cynnwys y wybodaeth gywir, gallai aelodau o'r cyhoedd gael eu camarwain o ran manylion y practis deintyddol a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

Rhaid i'r practis ddarparu copi o ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Yna, rhaid i'r practis gyhoeddi'r datganiad o ddiben diwygiedig ar ei wefan, ac anfon copi ohono i AGIC.

Rhoddodd y practis gopi o'r daflen wybodaeth i gleifion¹⁴ i ni, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Er bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gynhwysfawr, gan ei bod wedi'i llunio yn 2018 ac nad oedd wedi cael ei hadolygu na'i diweddarau ers hynny, mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth ynddi yn berthnasol mwyach. Gallai hyn olygu y rhoddir gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol i gleifion.

Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau ei thaflen wybodaeth i gleifion bob blwyddyn. Yna, rhaid i'r practis gyhoeddi'r datganiad o ddiben diwygiedig ar ei wefan, ac anfon copi ohono i AGIC.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig a oedd yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau i hysbysu AGIC am unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy megis brigiad o achosion o glefyd heintus. Nid oedd y rheolwr cofrestredig yn sicr ynghylch y gofynion hyn, felly ni allem fod yn sicr bod gan y practis broses adrodd gadarn ar waith i gyflawni ei gyfrifoldebau i hysbysu AGIC am ddigwyddiadau hysbysadwy. Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r weithdrefn sydd ar waith rhwng practisau deintyddol Bupa ac AGIC, gan gynnwys ei gyfrifoldebau o dan y weithdrefn hon.

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r weithdrefn i hysbysu AGIC am ddigwyddiadau hysbysadwy ac i gyflawni ei gyfrifoldeb mewn perthynas â phrosesau adrodd gorfodol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd unigolyn cyfrifol¹⁵ y practis wedi cwblhau ei ymweliad na'i adroddiad blynyddol, ac nad oedd unrhyw drefniadau wedi cael eu gwneud er mwyn cwblhau hyn pan gynhaliwyd y gwiriad ansawdd. Mae'r ymweliad hwn yn ymwneud â Rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn erbyn y rheoliadau a'r safonau perthnasol. Ar ôl i'r adroddiad gael ei gwblhau, rhaid ei gyflwyno i'r rheolwr cofrestredig ac AGIC.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn cwblhau ei ymweliad blynyddol yn

¹⁴ Mae'r daflen wybodaeth hon, a ddarperir i'r cleifion, yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod. Roedd y wybodaeth yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, trefniadau ar gyfer ceisio barn y cleifion, mynediad i'r eiddo a chadw apwyntiadau.

¹⁵ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli;

unol â Rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac yn cyflwyno'r adroddiad i'r rheolwr cofrestredig ac AGIC.

Gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio'r cyfleusterau oedd ar gael i gefnogi cleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r practis a bod ganddo staff sy'n siarad Cymraeg, nid oedd unrhyw wybodaeth wedi ei harddangos i roi gwybod i'r cleifion y gallent gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. O dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 ¹⁶ mae'n rhaid i bob practis sy'n cynnig triniaeth o dan y GIG sicrhau y gall pawb sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn glir fel bod y cleifion yn ymwybodol y gallant gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

¹⁶ Nod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 yw sicrhau bod unrhyw wasanaeth gan y Llywodraeth neu wasanaeth gofal iechyd sy'n cynnig triniaeth o dan y GIG yn gorfod sicrhau y gall pawb sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny heb unrhyw anfantais.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Gofal Deintyddol Bupa, Y Fflint

Dyddiad y gweithgarwch: 23 Medi 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r practis gadw taflen archwilio a chofnodi er mwyn sicrhau nad yw'r cyflenwadau o PPE yn disgyn islaw lefelau digonol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 8(1)(n)(o)	Mae unigolyn penodol wrthi'n llunio taflen archwilio a chofnodi er mwyn sicrhau na fydd y cyflenwadau o PPE yn disgyn islaw lefelau digonol. At hynny, mae gan Bupa archwiliad ar waith, a gaiff ei gwblhau'n chwarterol.	Andrea Parker	30/11/21
2	Rhaid i'r practis ddarparu copi o ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n cydymffurfio â Rheoliadau	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat	Mae'r practis wrthi'n llunio Datganiad o Ddiben cyfredol sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)	Andrea Parker	30/11/21

	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Yna, rhaid i'r practis gyhoeddi'r datganiad o ddiben diwygiedig ar ei wefan, ac anfon copi ohono i AGIC.	(Cymru) 2017 Rheoliad 5	2017.		
3	Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau ei thaflen wybodaeth i gleifion bob blwyddyn. Yna, rhaid i'r practis gyhoeddi'r datganiad o ddiben diwygiedig ar ei wefan, ac anfon copi ohono i AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 6	Mae'r practis ar hyn o bryd yn paratoi taflen wybodaeth i gleifion a fydd yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y practis, y staff a'r gwasanaethau sydd ar gael.	Andrea Parker	30/11/21
4	Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r weithdrefn i hysbysu AGIC am ddigwyddiadau hysbysadwy ac i gyflawni ei gyfrifoldeb mewn perthynas â phrosesau adrodd gorfodol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) Rheoliad 25	Mae'r practis yn ymwybodol o'r weithdrefn i hysbysu AGIC am ddigwyddiadau hysbysadwy ac i gyflawni ei gyfrifoldeb mewn perthynas â phrosesau adrodd gorfodol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Mae dogfen sy'n nodi'r broses ar gyfer hysbysu AGIC yn cael ei harddangos yn swyddfa'r Rheolwr.	Andrea Parker	Ar waith
5	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn cwblhau ei ymweliad blyneddol yn unol â Rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac yn cyflwyno'r adroddiad i'r rheolwr cofrestredig ac AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) Rheoliad 23	Mae systemau yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod yr ymweliadau yn cael eu cwblhau'n flynyddol gan dîm Llywodraethu Clinigol Gofal Deintyddol Bupa. Bydd yr adroddiad ar waith erbyn y terfyn amser gofynnol.	Andrea Parker	9/12/21

6	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn glir fel bod y cleifion yn ymwybodol y gallant gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 Safonau Iechyd a Gofal 3.1 - Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Mae'r practis wedi cynhyrchu poster gwybodaeth dros dro er mwyn hysbysu'r cleifion y dylent roi gwybod i aelod o staff os ydynt yn dymuno derbyn unrhyw waith papur drwy gyfrwng y Gymraeg neu os hoffent gyfathrebu yn Gymraeg. Mae ein tîm marchnata wrthi'n llunio poster yn cynnwys y wybodaeth hon sy'n cyd-fynd ag arferion brandio Bupa.	Andrea Parker	30/11/21
---	--	--	---	---------------	----------

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Andrea Parker

Dyddiad: 8/10/21